

Cyfle gyda Fforwm Ieuenctid Plant a Phobl Ifanc Sir Benfro



Yn galw ar bob person ifanc sy'n frwd dros lesiant emosiynol ac iechyd meddwl!

Ydych chi am helpu Sir Benfro i sicrhau bod gennym y pethau cywir ar waith er mwyn sicrhau dull ysgol gyfan o fynd i'r afael â llesiant emosiynol ac iechyd meddwl? Ydych chi am gael dweud eich dweud ar y dull gorau o sicrhau bod y cymorth a ddarperir yn ysgolion Sir Benfro wir yn gweithio i blant a phobl ifanc?

Os 'ydw' yw'r ateb, yna gwnewch gais i fod yn rhan o'n Bwrdd Ieuenctid. Gallwch lawrlwytho'r ffurflen gais [yma](#).

Rydym yn chwilio am 10 person ifanc o bob rhan o Sir Benfro. Rydym am gael ceisiadau gan bobl o bob cefndir, yn cynnwys aelodau o grwpiau lleiafrifol neu ddifreintiedig (sy'n cynnwys pobl sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim) neu bobl ag anghenion ychwanegol.

Mae bod yn rhan o'r grŵp hwn yn gyfle i chi newid y ffordd rydym yn siarad am lesiant emosiynol ac iechyd meddwl yn Sir Benfro, a gwneud yn siŵr bod y cymorth sy'n cael ei ddarparu wir yn gweithio i blant a phobl ifanc!

Mae'r rôl yn cynnwys cynghori'r awdurdod lleol i ddatblygu eu rhaglenni o weithgareddau, eu cyflwyno a chraffu arnynt, cwrdd â swyddogion, Cynghorwyr Sir a swyddogion Bwrdd Iechyd a ffigyrau allweddol eraill fel y Cyfarwyddwr Ysgolion a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Os ydych yn meddwl mai chi yw'r person cywir ar gyfer y swydd, yna cwblhewch eich cais a'i ddychwelyd erbyn 14 Mehefin 2019. Cynhelir cyfarfod cyntaf y Bwrdd leuenctid ym mis Gorffennaf 2019.

Bydd angen i chi fynychu cyfarfodydd grŵp o leiaf 3 gwaith y flwyddyn, a fydd yn cael eu cynnal ar ddiwrnod sydd fwyaf addas i aelodau'r grŵp. Gallai hyn fod ar ddydd Sadwrn, neu yn ystod gwyliau ysgol neu ar ddiwedd diwrnod ysgol. Byddwn yn trefnu eich bod yn cael eich talu'n ôl am eich amser.

Yn ogystal â helpu i lywio gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant mewn ysgolion, bydd bod yn aelod o'r Bwrdd hefyd yn rhoi'r cyfle i chi ddatblygu sgiliau newydd ac i gwrdd â phobl ifanc o bob rhan o Sir Benfro a dod i'w hadnabod. Fel aelod o'r Bwrdd, bydd disgwyl i chi weithio'n galed, ond byddwn yn ceisio gwneud yn siŵr bod y cyfarfodydd mor rhyngweithiol â phosibl a'n bod yn cael ychydig o hwyl ar yr un pryd! Felly, os yw'r cyfle hwn yn apelio atoch, rhowch wybod i ni.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltw Nadine.Farmer@pembrokeshire.gov.uk



Beth fydd yn digwydd nesaf?

Unwaith y bydd y ceisiadau i gyd wedi dod i law, cânt eu trafod gan yr awdurdod lleol a fforymau ieuenctid. Byddwn yn rhoi gwybod i chi p'un a ydych wedi bod yn llwyddiannus ai peidio cyn gynted â phosibl.